

Mewn Argyfwng

Os bydd eich peiriannau yn dod i gysylltiad â llinell bŵer uwchben, neu o fewn 5 metr i linell ar y ddaear, arhoswch yn eich cerbyd nes bydd y Gwasanaethau Brys neu SP Energy Networks yn cyrraedd, **onid oes perygl gwirioneddol o dân.**

- Dywedwch wrth bobl eraill am gadw draw hyd yn oed os ydych yn y caban. Gallai unrhyw un arall sy'n cyffwrdd eich cerbyd gael anafiadau anghheuol.
- Os yw'n bosibl, defnyddiwch eich ffôn symudol i ffonio'r **Gwasanaethau Brys** a rhoi eich union leoliad iddynt, neu gofynnwch i rywun arall eu ffonio. Dywedwch wrthynt fod llinellau pŵer uwchben yn y lleoliad dan sylw a gofynnwch iddynt gysylltu ag SP Energy Networks.
- Os oes rhaid i chi adael y cerbyd, peidiwch â cherdded allan ohono. NEIDIWCH YN GLIR ohono a chymryd camau breision fel bod un droed oddi ar y ddaear drwy'r adeg nes byddwch o leiaf 5 metr i ffwrdd.

Bydd SP Energy Networks yn cadarnhau pan fydd y pŵer wedi'i ddiffodd er mwyn i chi gael eich achub gan y Gwasanaethau Brys.

Byddwch yn Ymwybodol, Cadwch Draw

- **Peidiwch byth** â chyffwrdd â llinellau pŵer uwchben.
- **Dylech dybio bod llinellau pŵer uwchben yn fyw bob amser**, hyd yn oed os ydynt wedi disgyn i'r ddaear, wedi torri, neu ddim yn gwreichioni.

- **Hyd yn oes os yw'r llinellau yn 'farw', gallant fynd yn fyw eto yn ddirybudd.** Gall hyn ddigwydd yn awtomatig ar ôl rhai eiliadau, neu gellir eu hailwefru hyd at sawl awr yn ddiweddarach os na fyddwn yn gwybod bod y llinell wedi'i difrodi.
- **Pan fydd llinell ar y ddaear gallech gael eich lladd heb i chi gyffwrdd â hi.** Gall y cerrynt deithio cryn bellter ar y ddaear (a hyd yn oed yn bellach os bydd y llinell wedi disgyn ar ffens neu wrthrych metel arall).

Arwydd clir



Edrychwch i fyny a chadwch lygad am linellau pŵer. Os byddwch yn gweld yr arwydd hwn ar unrhyw gyfarpar cadwch draw. Mae'r neges yn glir.

Rhagor o Wybodaeth

Mae cyngor cynhwysfawr ar gael gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) drwy www.hse.gov.uk/electricity/information/overhead.htm

Cyn cychwyn unrhyw waith, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn darllen y canlynol sydd ar gael i'w llwytho i lawr am ddim o wefan HSE:

- Nodyn Cyfarwyddyd GS (6) HSE 'Avoiding Danger from Overhead Power Lines'
- Ar gyfer gweithwyr amaethyddol 'HSE Agriculture Information Sheet AIS8'
- Mae'r Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni yn llunio cyfres o daflenni diogelwch sydd ar gael am ddim yn www.energynetworks.org/electricity/she/safety/safety-advice/public-safety-leaflets.html

Cysylltu â ni

Rydym yn rhoi cyngor di-dâl am ddiogelwch i'ch helpu i fod yn ddiogel ger llinellau pŵer.

Ar gyfer cyngor di-dâl am ddiogelwch ac ymholiadau cyffredinol am y rhwydwaith:

- 🌐 www.spenergynetworks.co.uk
- ✉ customercare@spenergynetworks.com
- ☎ 0330 10 10 444

Ar gyfer cynlluniau rhwydwaith trydan:

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

- ☎ 0141 614 5666
- ✉ requestforplansmanweb@spenergynetworks.co.uk

Canolbarth Lloegr a De'r Alban

- ☎ 0141 614 9903
- ✉ requestforplansscotland@spenergynetworks.co.uk

Mewn argyfwng yn unig:

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

- ☎ 0800 001 5400

Canolbarth Lloegr a De'r Alban

- ☎ 0800 092 9290



Mae Diogelwch yn Bwysig

Wrth weithio ger llinellau pŵer uwchben



Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn cynnig cyngor am ddiogelwch i unrhyw un sy'n gweithio yn agos at y llinellau pŵer uwchben sy'n mynd drwy gefn gwlad, gan ddod â thrydan i bob un ohonom. Mae llinellau pŵer sy'n trawsyrru yn cario trydan ar foltedd mor uchel fel bod y trydan yn gallu 'neidio' dros fylchau, ond gall hyd yn oed foltedd domestig (230 folt) fod yn angheuol.

Mae tua pum person yn marw bob blwyddyn o ganlyniad i gyswilt damweiniol â llinellau pŵer uwchben. Yn aml gall y defnydd o beiriannau amaethyddol a pheiriannau adeiladu (fel wagenni codi, combeiniau a chwistrellwyr breichiau hir) a chyfarpar (fel ysgolion, sgaffaldiau a phibellau dyfrhau) ddod â gweithwyr yn agos at y llinellau hyn.

Nodiadau:

- Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cyhoeddi canllawiau manwl i bobl sy'n gweithio ger llinellau pŵer - Nodyn Cyfarwyddyd GS6 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, 'Avoiding Danger from Overhead Power Lines'. Gallwch lwytho'r canllawiau i lawr am ddim a rhaid i chi eu defnyddio i helpu i osgoi perygl wrth weithio ger llinellau pŵer.
- Gall llinellau pŵer gael eu difrodi mewn tywydd garw neu, er enghraifft, os yw peiriannau'n eu taro. Ond hyd yn oed os ydyn nhw wedi torri, maen nhw'n dal yn gallu bod yn 'fyw'.

- Rhaid cysylltu ag SP Energy Networks ar unwaith os oes llinell bŵer wedi cael ei tharo neu ei difrodi er mwyn iddyn nhw allu gwneud y llinell yn ddiogel. Os nad ydyn nhw'n gwybod am ddiogwyddiad gallent geisio ailwefru'r llinell bŵer o ystafell reoli bell i ffwrdd.
- Mae'r rhan fwyaf o'r llinellau pŵer heb eu hynysu.
- Yn aml iawn mae llinellau pŵer yn cael eu cynnal ar bolion pren a gallent gael eu camgymryd am wifrau ffôn.
- Edrychwch am yr arwydd 'Perygl Marwolaeth' ar bolion a pheilonau. Dyna'n union beth mae'n ei olygu.
- Gall coed, llinyn, rhaffau, crogliniau a hyd yn oed ddŵr ddargludo trydan.
- Ni fydd esgidiau rwber yn eich amddiffyn.
- Ar fuarthau fferm a thir ffermio, dylech osgoi adeiladu ar y tir o amgylch llinellau pŵer uwchben. Gallai hyn effeithio ar gliriant diogel.
- Os ydych yn ystyried agor tir ffermio i'r cyhoedd (e.e. ar gyfer gwersylla), dylech sicrhau bod eich asesiad risg o ran diogelwch yn cynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â llinellau pŵer uwchben.
- Cadwch eich llygaid ar agor am blant ac ymwelwyr ar eich tir.
- Dylech gario ffôn symudol gyda chi os ydych yn gweithio ar eich pen eich hun rhag ofn y bydd angen i chi ffonio'r Gwasanaethau Brys.
- Gofynnwch i SP Energy Networks am wybodaeth am lwybrau llinellau pŵer uwchben a foltedd sy'n mynd dros eich tir neu sy'n agos at ei derfynau, a nodwch y rhain ar fap/cynlluniau eich fferm.

Meddyliwch Ymlaen Llaw

- Dewiswch eich peiriannau a'ch cyfarpar yn ofalus fel na allant ddod i gysylltiad â llinellau pŵer uwchben.
- Cynlluniwch eich gwaith er mwyn osgoi ardaloedd risg uchel a defnyddio llwybrau mynediad amgen sydd ddim yn mynd o dan linellau pŵer uwchben.
- Gall fod yn anodd gweld llinellau uwchben, yn enwedig yn y nos, neu pan fydd coed yn eu cuddio.
- Byddwch yn ofalus iawn wrth dorri neu docio coed.
- Cynlluniwch yn ofalus wrth godi, datgysylltu a symud cyfarpar fel ysgolion, sgaffaldiau neu dwnelau polythen amaethyddol. Dylech gario gwrthrychau hir yn llorweddol bob amser.
- Cynlluniwch ardaloedd storio yn ofalus. Ni ddylech bentyrru unrhyw beth yn union o dan, neu wrth ymyl, llinellau pŵer uwchben.

Mesurwch eich Peiriannau

Ystyriwch y risgiau sy'n gysylltiedig â llinellau pŵer uwchben wrth brynu peiriannau newydd neu ail-law. Holwch beth yw uchder mwyaf a chyrhaeddiad fertigol y cyfarpar. Ystyriwch faint eich peiriannau eich hun a'r rhai a ddefnyddir gan eich contractwyr ar eich tir/safle. Cofiwch:

- Dylai llinellau uwchben fod o leiaf 5.2 metr (17 troedfedd) o'r ddaear. Er hyn, gall cyfarpar byw a osodir ar bolion fod mor isel â 4.3 metr (14 troedfedd).
- Mae'n beryglus codi gwely lori godi o dan linell bŵer uwchben neu yrru o dan y llinell bŵer pan fydd corff y cerbyd wedi'i godi.
- Mae'n beryglus codi neu droi craen neu jib cloddio wrth weithio ger llinellau pŵer uwchben.

- Ond nid dim ond cyfarpar a pheiriannau sy'n beryglus. Gall ffrwd o ddŵr neu slyri ddadwefru trydan a chreu risg uchel o anaf angheuol neu ddirifol.

Hysbysu a Hyfforddi Pobl

Dylech sicrhau bod staff, contractwyr a gweithwyr achlysurol ar eich tir/safle wedi'u hyfforddi:

- I adnabod yr arwydd rhybudd 'Perygl Marwolaeth' melyn a du.
- I wybod lle mae'r llinellau pŵer ar y tir/safle lle maent yn gweithio.
- I asesu addasrwydd y peiriannau a'r dull o weithio cyn cychwyn pob tasg, yn enwedig wrth weithio ger llinellau pŵer.
- Dylai gweithwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ger llinellau pŵer wybod pwy yw'r gweithredwr rhwydwaith dosbarthu trydan lleol a gwybod sut i gysylltu ag ef i gael cynlluniau a chynghor am ddiogelwch a sut i gysylltu ag ef mewn argyfwng.
- Sut i gadw'u hunain a phobl eraill yn ddiogel mewn argyfwng.

